

# Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr ym mis Mai 2021: Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

---

Mae'r daflen ffeithiau hon ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr ym mis Mai 2021.

O dan Orchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012, rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ddilyn rheolau ynghylch faint y gallant ei wario ar weithgareddau ymgyrchu yn y cyfnod cyn yr etholiadau.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae'r rheolau hyn yn gymwys.

Beth yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau?

Unigolion neu sefydliadau yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr.

Rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ddilyn rheolau penodol yn y cyfnod cyn etholiadau.

Mae'r ddogfen hon yn egluro pa reolau sy'n gymwys ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr ym mis Mai 2021 a'r terfynau gwariant perthnasol.

I gael rhagor o wybodaeth am ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac arweiniad ar ymgyrchu mewn etholiadau eraill, gweler ein [canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#).

## Y mathau o ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau

Mae dau fath o ymgyrch gan rai nad ydynt yn bleidiau, sef:

- **Ymgyrchoedd lleol** – ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn un neu fwy o ymgeiswyr mewn ardal benodol yr heddlu
- **Ymgyrchoedd cyffredinol** – ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn plaid wleidyddol, neu gategoriâu penodol o ymgeiswyr, gan gynnwys ymgyrchoedd ar bolisiau neu faterion sy'n gysylltiedig iawn â phlaid benodol neu gategori o ymgeiswyr (er enghraifft, ymgeiswyr mewn grŵp oedran penodol).

Ceir rhagor o wybodaeth am y mathau gwahanol o ymgyrchoedd yn [Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau: Ble i ddechrau](#).

## Ymgyrchu lleol yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym mis Mai 2021

Bydd y rheolau ymgyrchu lleol yn gymwys i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr sy'n ymgyrchu dros neu yn erbyn ymgeiswyr sy'n sefyll mewn ward benodol neu ardal benodol yr heddlu.

**Nid** yw'r Comisiwn Etholiadol yn rheoleiddio ymgyrchu lleol. Dylai cwynion am dorri'r rheolau sy'n gymwys i ymgyrchoedd lleol gael eu gwneud i'r heddlu.

O dan y rheolau ymgyrchu lleol, mae terfynau ar faint y gallwch ei wario ar ymgyrchu dros neu yn erbyn

ymgeiswyr penodol mewn ward neu ardal yr heddlu.

Mae'r terfynau gwariant hyn yn cwmpasu gwariant ar y rhan fwyaf o weithgareddau ymgyrchu, gan gynnwys taflenni, cyfarfodydd ac ymgyrchu digidol.

## Y cyfnod a reoleiddir

Defnyddiwn y term cyfnod a reoleiddir i olygu'r adeg pan fydd y terfynau gwariant a'r rheolau yn gymwys.

Mewn etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, mae'r cyfnod a reoleiddir yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r unigolyn rydych yn ymgyrchu drosto neu yn ei erbyn ddod yn ymgeisydd, ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 6 Mai 2021. Y dyddiad cynharaf y gall rhywun ddod yn ymgeisydd yn yr etholiadau hyn yw dydd Llun 29 Mawrth 2021. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynghylch pryd y daw rhywun yn ymgeisydd ar ein [tudalen canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

## Ffurflen gwariant

Os ydych wedi'ch awdurdodi gan asiant ymgeisydd i fynd i wariant sy'n uwch na'ch terfyn gwariant (gweler y tabl isod) yn eich ardal yr heddlu, bydd gofyn i chi gyflwyno ffurflen gwariant ar gyfer y treuliau hynny. Rhaid cwblhau'r ffurflen o fewn 21 diwrnod i'r diwrnod y caiff canlyniad yr etholiad ei ddatgan.

Ynghyd â'r ffurflen mae'n rhaid cyflwyno datganiad yn dilysu'r ffurflen a chopi o'r awdurdod a gawsoch gan yr asiant etholiad.

Mae'r ffurflen gwariant a'r ffurflen datganiad ar gael o dan yr adnoddau ar gyfer rhan 3 ar ein gwefan [tudalen](#)

[canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid.](#)

## Argraffnodau

Pan gaiff deunydd etholiad ei gyhoeddi, rhaid iddo gynnwys rhai manylion penodol (y cyfeirir atynt fel 'argraffnodau') er mwyn dangos pwy sy'n gyfrifol am y deunydd. Mae hyn yn helpu i sicrhau tryloywder ynglŷn â phwy sy'n ymgyrchu.

Gweler ein [taflen ffeithiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#) i gael canllawiau ar sut i ddefnyddio argraffnodau ar ddeunydd etholiad.

## Terfynau gwariant

Yn ystod cyfnod a reoleiddir, bydd terfynau ar wariant gweithgarwch ymgyrchu ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

Mae gan bob ardal yr heddlu ei derfyn gwariant ei hun, yn amrywio o £2,024 yn Cumbria i £10,080 yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Mae'r holl derfynau hyn i'w gweld yn y tabl drosodd. Dylech gadw cofnod o'ch gwariant, er mwyn sicrhau nad ydych yn mynd y tu hwnt i'r terfyn gwariant.

Rhaid i unrhyw wariant dros y terfynau hyn gael ei awdurdodi gan asiant yr ymgeisydd perthnasol. Felly bydd yn cyfrif fel gwariant ar ymgeisydd ac yn mynd tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd.

Ardal yr heddlu	Terfyn gwariant
Avon a Gwlad yr Haf	£6,278
Swydd Bedford	£2,347
Swydd Gaergrawnt	£3,055
Swydd Gaer	£4,015
Cleveland	£2,155
Cumbria	£2,024
Swydd Derby	£3,993
Dyfnaint a Chernyw	£6,573
Dorset	£3,003
Durham	£2,499
Dyfed-Powys	£2,035
Essex	£6,605
Swydd Gaerloyw	£2,422
Gwent	£2,199
Hampshire	£7,345
Swydd Hertford	£4,260
Glannau Humber	£3,557
Caint	£6,433
Swydd Gaerhirfryn	£5,682
Swydd Gaerwrangon	£3,952
Swydd Lincoln	£2,805
Glannau Mersi	£5,139
Norfolk	£3,392
Gogledd Cymru	£2,674
Gogledd Swydd Efrog	£3,142
Swydd Northampton	£2,686
Northumbria	£5,507
Swydd Nottingham	£4,116
De Cymru	£4,904
De Swydd Efrog	£5,030
Swydd Stafford	£4,314
Suffolk	£2,828
Surrey	£4,345
Sussex	£6,197
Dyffryn Tafwys	£8,551
Swydd Warwick	£2,144
Gorllewin Mersia	£4,750
Gorllewin Canolbarth Lloegr	£10,080
Gorllewin Swydd Efrog	£8,098
Wiltshire	£2,630

## Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn y [canllawiau ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd](#). Mae rhan tri yn ymdrin â'r gwariant, y rhoddion a'r rheolau adrodd ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid.

Neu ewch i:

[www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

Os yw'n haws, gallwch hefyd anfon e-bost atom neu ein ffonio ni drwy ddefnyddio'r rhifau ffôn isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

### Lloegr:

E-bostiwrch ni yn:

[pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)

Ffoniwch ni ar 0333 103 1928

### Cymru:

E-bostiwrch ni yn:

[gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)

Ffoniwch ni ar 0333 103 1929

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau – e-bostiwrch ni yn [pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bostiwrch ni yn:

[publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)